Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon, ac unrhyw dystiolaeth ategol y byddwch yn ei hanfon, i brosesu eich cais am Brydau Ysgol Am Ddim. Mae hyn yn ofynnol dan bolisi Prydau Ysgol Am Ddim.

Caiff y wybodaeth hon ei chadw'n ddiogel ar ein system am gyfnod o 2 mlynedd ar ôl i'ch cais ddod i ben.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadarnhau eich cymhwysedd gyda'r ysgolion yn unig.

Efallai y bydd Cyngor Sir y Fflint yn cymharu'r wybodaeth rydych wedi'i darparu, neu wybodaeth amdanoch chi y mae rhywun arall wedi'i darparu, â gwybodaeth arall sydd gennym. Efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, neu yn rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn:

- sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir
- atal neu ganfod troseddau, ac
- diogelu arian cyhoeddus.

Ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn rhoi gwybodaeth amdanoch i unrhyw un arall, na'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi at ddibenion eraill, oni bai fod y gyfraith yn caniatáu hynny.

Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan - http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx